



YSGOL GYMRAEG PONTARDAWE
CYLCHLYTHYR TACHWEDD 2020 / **NOVEMBER 2020 NEWSLETTER**

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Annwyl rieni a gofalwyr / *Dear Parents and Carers*

Gair mawr o ddiolch eto am eich cymorth, cydweithrediad a'ch amynedd. Rydych wedi bod yn wych. Cofiwch, nod ein systemau presennol yw sicrhau cyn lleied â phosib o gyswllt rhwng y gwahanol ddsbarthiadau ac yn enwedig rhwng oedolion ger clwyd yr ysgol. Mae'r amseroedd cychwyn a gorffen gwahanol yn rhan bwysig o hyn. Cofiwch gyrraedd ond rhwng yr amseroedd penodedig. Ceisiwch osgoi cyrraedd yn gynnar ac yna aros tu allan i'r glwyd. Os nad yw'n hanfodol siarad â'r athrawon ar ddyletswydd, plis osgowch wneud hynny (yw hi'n bosib danfon e-bost yn lle). Rydym wedi bod yn ffodus iawn ers dechrau'r tymor ond mae'r firws yn dechrau cael gafael tynnach yn yr ardal. Trwy roi'r gweithdrefnau yma ar waith os brofwn fwy o achosion Covid, bydd yn lleihau'r gwasgariad yn y gymuned a lleihau'r effaith ar rediad yr ysgol. Os allwch ddilyn apêl y Cyfarwyddwr Addysg i wisgo mwgwd wrth ollwng a chasglu, byddai'n ychwanegu lefel bellach o ddiogelwch. Mae'r rheoliadau Covid a'r gwaith adeiladu hefyd yn rhoi pwysau ar ein gallu i ateb y ffôn. Gofynnwn yn garedig i chi ein e-bostio os nad yw'n hanfodol cysylltu â'r swyddfa. Diolch.

Many thanks again to all of you for your help, co-operation and patience. You have been truly outstanding. Remember, the aim of the current systems is to minimise contact between different classes and especially between adults at the school gate. The staggered start and finish times are an important part of this. Please try to avoid arriving early and then having to wait outside the gate. If speaking to the teachers on duty is not essential, please avoid doing so (use an email instead). We have been very fortunate since the beginning of term, but the virus is increasing its grip in the area. By continuing to implement our system, should a case occur in or around school, transmission in the community would be minimised as would the impact on the school. If you can follow the Director of Education's appeal to wear a mask when dropping off and collecting, it would add another level of protection. Covid regulations and building work is placing added pressure on our ability to answer the phones. If speaking to the office directly is not absolutely essential, please email us instead. Thank you.

Pwysig – Protocol Covid-19 / Important – Covid-19 Protocol

Os yw disgybl yn **derbyn canlyniad prawf positif** gofynnwn i rieni ddefnyddio'r protocol isod os gwelwch yn dda. E-bostiwch yr ysgol gyda'r canlynol (yggpontardawe@npt.school)

Pwnc : "Pwysig – Covid"

Neges : "Cysylltwch â mi ar y rhif canlynol ..."

Peidiwch cynnwys unrhyw wybodaeth arall ac fe gysylltwm â chi cyn gynted ag y bo modd.

*Should a pupil receive a **positive test result** we ask parents to use the protocol below. Email the school with the following*

Subject: "Important - Covid"

Message: "Contact me on the following number ..."

Please do not include any other information and we will contact you as soon as we can.

Cofiwch / Remember

Cofiwch bwysigrwydd fod rhieni yn gwirio nad yw eu plant yn dangos unrhyw symptomau cyn mynychu - tymheredd uchel, pyliau peswch cyson newydd a cholled neu newid i arogl neu flas. Os ydynt yn arddangos y symptomau yma, **ni ddylent fod yn yr ysgol ar unrhyw gyfrif a dylid trefnu prawf.** Yn yr un modd, os yw rhieni'n dangos symptomau ac yn debygol o fod yn trefnu prawf, peidiwch danfon y plant i'r ysgol.

*Remember the importance of parents checking that their children are not showing any symptoms before attending - high temperature, constant new coughs and loss or a change in smell or taste. If they exhibit these symptoms, **they should not be in school under any circumstances and a test should be arranged.***

www.npted.org/schools/primary/yggpontardawe
yggpontardawe@npt.school
<https://twitter.com/YGGPontardawe>

Likewise, if parents are showing symptoms and are likely to be subject to testing, please do send pupils to school.

Clwb Brecwast / Breakfast Club

Yn anffodus, ar hyn o bryd, ni allwn gynnig dyddiad ar gyfer ail gychwyn y clwb brecwast. Pan fyddwn yn barod i ail gychwyn, fe'ch hysbyswn.

Unfortunately, at this time, we cannot offer a date for the restart of the breakfast club. When we are ready to restart, we will inform you.

Clybiau ôl ysgol / After school clubs

Yn yr un modd, gan na allwn gymysgu disgyblion, ar hyn o bryd ni allwn gynnig clybiau ôl ysgol ar hyn o bryd. *Again, as we cannot mix pupils, we cannot currently offer after school clubs.*

Cyngerddau Nadolig / Christmas Concerts

Fel y gwyddoch, yn ddiaw, ni fyddwn eleni yn gallu cynhyrchu cyngerddau Nadolig fel yn y dull arferol. Eleni, byddwn yn cynhyrchu fersiwn ddigidol a fydd yn cael ei ffrydio (ar Youtube yn ôl pob tebyg) am ddiwrnod neu ddau. Os nad ydych am i'ch plentyn gael ei gynnwys ar y ffrydio, rhowch wybod i ni.

As you are no doubt aware, we will not be able to produce Christmas concerts as we normally would. This year, we will produce a digital version that will be streamed (probably on Youtube) for a day or two. If you do not wish your child to be included on the streaming, please let us know.

Nosweithiau Rhieni / Parents Evenings

Rydym wedi cynllunio nosweithiau rhieni ar gyfer yr wythnos nesaf (23-27 Tachwedd). Fe ddylech erbyn hyn fod wedi derbyn slip yn nodi dyddiad ac amser galwad ffon gan athro eich plentyn. Erbyn diwedd y dydd heddiw, trwy gyfrif HWB y disgyblion bydd targedau canol dymor yn cael ei rhannu a'u siart we sgiliau SPO (Sgiliau Personol am Oes). Cofiwch, er tegwch i bawb ac i gadw at yr amserlen, mai **10 munud ar y mwyaf** fydd y galwadau.

*Parents' evenings have been planned for next week (23-27 November). You should by now have received a slip stating the date and time of a phone call from your child's teacher. By the end of the day today, via the pupils' HWB accounts, teachers will share mid-term targets and the SPO skills (Personal Skills for Life) spider chart. Please remember, in fairness to all and to maintain the timetable, calls will be a **maximum of 10 minutes**.*

Cardiau ac Anrhegion Nadolig / Christmas Cards and Presents

Gofynnwn yn garedig i rieni i beidio danfon cardiau Nadolig i'r ysgol (ar gyfer disgyblion eraill na staff). Yn yr un modd, gan fod y sefyllfa mor fregus gyda'r firws i beidio danfon anrhegion at staff. Beth am ddanfon unrhyw arbedion at elusen?

We kindly ask parents not to send Christmas cards to school (for other pupils or staff) this year. Similarly, as the situation with the virus is so finely balanced not to send gifts to staff. Why not donate any savings to charity?

Hoffem serch hynny, gynnal "Apêl Rhodd Nadolig Euraiddd". Pwrpas yr apêl hon yw i ddarparu anrhegion Nadolig i breswylwyr cartrefi gofal lleol. Os dymunwch gyfrannu, gofynnwn yn garedig i chi baratoi anrhegion a'i ollwng yn y blwch ger y glwyd waelod ger yr athrawon dosbarth cyn diwedd tymor (dim diod meddwol na bwydydd os gwelwch yn dda). Byddwn yn gweithredu canllawiau diogelu tynn ar gyfer yr anrhegion.

We would, however, like to conduct a "Christmas Gift Appeal". The purpose of this appeal is to provide local care home residents with a Christmas present. If you wish to donate, we kindly ask you to prepare a gift and leave it in the box near the bottom gate by the class teachers before the end of term (no alcoholic drinks or foods please). We will implement stringent safety measures when preparing and delivering the gifts.

Derbyniadau i ysgolion / School Admissions

Mae'r ffenest ar gyfer cofrestru disgyblion i'r dosbarth derbyn llawn amser ym Medi 2021 ac ar gyfer Blwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd bellach yn agored. Mae'r sir yn nodi fod nifer heb gofrestru hyd yma. Y dyddiad cau yw dydd Gwener 27^{ain} Tachwedd. (<https://www.npt.gov.uk/1929?lang=cy-gb>).

The window for registration of pupils into the full-time reception class in September 2021 and for comprehensive schools next year is now open. The authority has advised us that a few have yet to register. The closing date is Friday 27th November. (<https://www.npt.gov.uk/1929>)

Derbynfa / Reception

Bydd y dderbynfa **ar gau** ac ni fydd ymwelwyr yn cael mynediad i'r ardal yma heb apwyntiad. Am y tro gofynnwn i chi ond i ddefnyddio'r ffôn pan ei bod yn wir angenrheidiol. Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost ar waelod y cylchlythyr os gwelwch yn dda. Pwysleisiwn – ni fydd drws y dderbynfa yn cael ei agor. Os yw'r disgyblion yn hwyr, arhoswch yn y maes parcio, ffoniwch yr ysgol ac fe drefnwn aelod i staff gasglu'r disgybl o'r maes parcio.

*The reception area is **closed** and visitors will not gain access to this area without an appointment. For the time being we ask you only to use the phone when it is absolutely necessary. Please use the email address at the bottom of the newsletter. **We emphasise - the reception door will not be opened.** If pupils are late, stay in the car park, telephone the school and we will arrange for a member of staff to collect the pupil from the car park.*

Gwersi Offerynnol / Instrument Lessons

Os hoffech i'ch plentyn gychwyn gwersi offerynnol eleni, gadewch i ni wybod. Cofiwch, fel rhan o'r ddarpariaeth, gellir benthyg offerynnau am ddim.

If you would like your child to take up instrumental lessons, please let us know. Remember, these lessons can also include a free loan of an instrument.

(Cyfraniad o £120 y flwyddyn / £3:15 yr wythnos / *Contribution of £120 a year / £3:15 a week*)

Dydd Llun / *Monday* - Telyn / *Harp* (Miss Katie Bayliss) - Drymiau / *Drums* (Mr Lyn Rees) - Llinynnol B3 a B6 / *Strings Y3 and Y6* (Mrs Sharon Williams)

Dydd Mawrth / Tuesday - Prês / *Brass* (Mr Chris Thomas / Mr Wayne Pedrick)

Dydd Gwener / *Friday*- Llinynnol B4 a B5 / *Strings Y4 and Y5* (Mrs Sharon Williams)

HMS a Gwyliau / INSET and Holiday Dates

Mae'r diwrnodau HMS sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf isod. Mae hyn yn gadael dau ddiwrnod HMS i'w trefnu ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Fe rown gymaint o rybudd a phosib i chi wedi trefnu'r rhain. Mae nifer o rieni wedi cysylltu â ni i ofyn am ddyddiadau tymor y flwyddyn nesaf. Rydym wedi cynnwys cymaint ag y gallwn yn y dyddiadur. Cofiwch fod y wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan CNPT. Rydym hefyd wedi clustnodi diwrnodau ar gyfer trosglwyddo a chwaraeon. Yn naturiol, bydd y rhain yn lwyd ddiwyddol ar reoliadau Covid-19. Rydym yn obeithiol iawn y byddwn yn gallu cynnal rhai ymweliadau preswyl cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Mae'n llawer rhy gynnar i ddweud a fyddant i'r lleoliadau a gynlluniwyd ai peidio.

INSET days already planned for the next academic year are listed below. This leaves two INSET days yet to organise. As soon as these are organised, we will provide as much notice as possible. A number of parents have contacted us asking for next year's term dates. We have included as much as we can in the diary. Remember that this information is also available on the NPT website. We have also earmarked days for transition and sports. Naturally, these will be dependent on Covid-19 regulations. We are very hopeful that we will be able to undertake some residential visits before the end of the academic year. It is far too early to say whether they will be to the planned venues or not.

Dydd Llun, Rhagfyr 21^{ain} 2020 / *Monday December 21st 2020*
Dydd Mawrth, Rhagfyr 22^{ain} 2020 / *Tuesday, December 22nd 2020*
Dydd Gwener, Gorffennaf 16^{eg} 2021 / *Friday, July 16th 2021*

Maes Parcio / Car Park

Gofynnwn yn garedig i'n holl rieni osgoi parcio yn yr ardaloedd anabl heb fathodyn, parcio ar balmantau a chau'r llwybrau diogel i deuluoedd gerdded i ac o'r ysgol. Fydech chi hefyd yn gallu dangos ystyriaeth i'n cymdogion ym Maes yr Ysgol. Cofiwch roi blaenoriaeth i gerddwyr **bob amser**.

*Could we kindly remind all parents not to park in the disabled bay without a valid badge, to park on pavements and block the safe routes for our families as they walk to and from school. Please also show consideration for our neighbours in Maes yr Ysgol. Remember to **always** give priority to pedestrians.*

Diolch unwaith eto i chi i gyd am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus. Os ydych chi ein hangen ni, cysylltwch trwy e-bost yn yggpontardawe@npt.school.
I can once again thank you all for your continued support and understanding. If you need us, please contact by email at yggpontardawe@npt.school.

Cadwch yn saff. Daw eto haul ar fryn
Stay safe. Better times are ahead



Ceri Emanuel
Pennaeth / *Headteacher*
20.11.20

Trefniadau Gollwng a Chasglu / *Drop off and Collection times*

Dosbarthiadau / <i>Classes</i>	Amser Gollwng / <i>Drop off slot</i>	Amser Casglu / <i>Collection slot</i>
Mr Owen (B6) a Mr Lewis (B5)	8:30 - 8:40am	2:40 - 2:50pm
Mrs Hogarth (B3), Mrs Richards / Mrs A Shields (B3&4) a Miss M Davies (B4)	8:40 - 8:50am	2:50 - 3:00pm
Miss Lewis (B2), Mrs Saunders (B1&2) a Miss Stephanie Davies (B1)	8:50 - 9:00am	3:00 - 3:10pm
Mrs Jones Fowler (D&B1), Mrs Jones / Mrs Morgan (Derbyn)	9:00 - 9:10am	3:10 - 3:20pm
Mrs Laura Evans (Meithin Bore / <i>Morning Nursery</i>)	9:10 - 9:20am	11:20 - 11:30am
Mrs Laura Evans (Meithin Prynawn / <i>Afternoon Nursery</i>)	12:15 - 12:25pm	2:25 - 2:35pm

Dyddiadur 2020 - 2021 / *2020 - 2021 Diary*

Tachwedd 18 ^{fed} i'r 25 ^{ain} <i>November 18th to 25th</i>	Llyfrau Teithiol yn ymweld â'r ysgol (cyfle i brynu llyfrau) <i>Travelling Books in school (opportunity for pupils to purchase)</i>
Dydd Mawrth Rhagfyr 15 ^{fed} <i>Tuesday December 15th</i>	Nyrs Ysgol – Chwistrell Ffliw i F2 Miss Lewis <i>School Nurse – Nasal Flu Inoculation Y2 Miss Lewis</i>
Dydd Llun, Rhagfyr 21 ^{ain} <i>Monday, December 21st</i>	HMS <i>INSET</i>
Dydd Mawrth, Rhagfyr 22 ^{ain} <i>Tuesday, December 22nd</i>	HMS <i>INSET</i>
Diwedd Tymor – Cau i ddisgyblion dydd Gwener, Rhagfyr 18 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ionawr 4 ^{ydd} <i>End of Term – School closes to pupils on Friday, December 18th and will re-open on Monday, January 4th</i>	
Hanner Tymor – Chwefror 15 ^{fed} i Chwefror 19 ^{eg} <i>Half Term – February 15th to February 19th</i>	
Gwylau Pasg – Cau i ddisgyblion dydd Gwener, Mawrth 26 ^{ain} ac yn ail agor ar ddydd Llun, Ebrill 12 ^{fed} <i>Easter Holidays – School closes to pupils on Friday, March 26th and will re-open on Monday, April 12th</i>	
Dydd Iau, Mai 27 ^{ain} <i>Thursday, May 27th</i>	Mabolgampau Ysgol <i>School Sports Day</i>
Hanner Tymor Sulgwyn – Mai 31 ^{ain} i Fehefin 4 ^{ydd} <i>Half Term Whitsun – May 31st to June 4th</i>	
Dydd Iau, Mehefin 17 ^{eg} <i>Thursday, June 17th</i>	Diwrnod agored B6 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y6 Open Day in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Mawrth i Iau, Mehefin 24 ^{ain} i'r 27 ^{ain} <i>Tuesday to Thursday, June 24th to 27th</i>	Diwrnod sgiliau B5 yn Ysgol Gyfun Ystalyfera <i>Y5 skills days in Ysgol Gyfun Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 2 ^{ail} <i>Friday, July 2nd</i>	Mabolgampau Clwstwr yn YG Ystalyfera (Tîm B3 – B6) <i>Cluster Sports at YG Ystalyfera (Y3 – Y6 Team)</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 9 ^{fed} <i>Friday, July 9th</i>	B6 – Gig Siarter Iaith yn YG Ystalyfera <i>Y6 – Language Charter Gig at YG Ystalyfera</i>
Dydd Gwener, Gorffennaf 16 ^{eg} <i>Friday, July 16th</i>	HMS <i>INSET</i>
Gwylau'r Haf – Cau i ddisgyblion dydd Iau, Gorffennaf 15 ^{fed} ac yn ail agor ar ddydd Gwener, Medi'r 3 ^{ydd} <i>Summer Holidays – School closes to pupils on Thursday, July 15th and re-opens on Friday, September 3rd</i>	
Dydd Iau, Medi'r 2 ^{ail} <i>Thursday, September 2nd</i>	HMS <i>INSET</i>